20FED O RAGFYR

# Ysgol Treganna

## Cylchlythyr wythnosol




**Wythnos Yma**

Ar ddiwedd tymor hapus a phrysur yn Ysgol Treganna hoffem ddiolch o waelod calon i holl gymuned yr ysgol am eich cefnogaeth a'ch cydweithrediad. Mae Ysgol Treganna yn le arbennig iawn ac mae'r cydweithio parhaus rhwng staff, disgyblion, rhieni a llywodraethwyr, yn dyst i'r gymuned hyfryd sy'n cynnal ein hysgol.

Wythnos yma, rydym wedi mwynhau gwylio perfformiadau'r dosbarthiadau Derbyn a'r Feithrin. Roedd yn hyfryd i weld ein disgyblion ieuengaf yn perfformio mor hyderus ar lwyfan yr ysgol. Diolch i'r holl staff am eu gwaith caled yn paratoi'r disgyblion ar gyfer y sioeau.

Aeth criw o flwyddyn 6 i ddiddanu trigolion cartref Tŷ Melin ar ddydd Mawrth. Roedd y plant wedi cael amser wrth eu bodd yn perfformio a'r uchafbwynt oedd cael y cyfle i sgwrsio ac i gymdeithasu gyda'r trigolion. Diolch yn fawr am y gwahoddiad.

Nadolig Llawen i bawb a Blwyddyn Newydd Dda!

## Calendr

**Diwrnod ola'r tymor**
**20.12.24**

**Diwrnod HMS (Dim ysgol i'r disgyblion)**
**6.1.25**

**Clybiau allgyrsiol yn ail ddechrau**
**13.1.25**

## Holiadur Gwaith Cartref

Rydym yn awyddus i gael eich barn am waith cartref. Byddwn yn parhau i ddanfon llyfrau darllen adref yn wythnosol, oherwydd mae'n allweddol bod y disgyblion yn cael y cyfle i ddarllen yn rheolaidd. Byddwn hefyd yn parhau i ddefnyddio'r cofnod darllen ar Teams. Ond beth yw eich barn am y gwaith cartref sy'n cael ei ddanfon allan yn wythnosol ar Teams? Ydy'r plant yn elwa o'r gwaith cartref yma? Ydy'ch plant yn cael digon o amser i gwblhau'r gwaith cartref?
Yn symud ymlaen, a fyddai'n well gan eich plentyn/ plant i gwblhau prosiect bob hanner tymor yn seiliedig ar gysyniad y dosbarth?
A fyddech cystal â llenwi'r holiadur byr yma yn nodi beth yw eich barn am drefniadau cyfredol yr ysgol o safbwynt gwaith cartref?
https://docs.google.com/forms/d/e/1FAIpQLSdt0AERNueTHJxpHXKqXKz_EoqnkQQhuoEaFQHzSv6-SbnU-w/viewform?usp=sf_link

## Carol yr Ŵyl

Llongyfarchiadau i gôr blwyddyn 6 Ysgol Treganna, am gyrraedd y 10 olaf yng nghystadleuaeth Carol yr Ŵyl, S4C. Daeth y camerâu teledu i'r ysgol mis diwethaf i ffilmio disgyblion blwyddyn 6 yn perfformio'r garol "Gwyrth y Crud" yn neuadd yr ysgol ac ym Mharc Fictoria. Diolch i Mrs Roberts am gyfansoddi'r garol a Mrs C Evans am ysgrifennu'r geiriau.
Cofiwch wylio rhaglen Carol yr Ŵyl ar S4C, 8.00yh, nos Wener yr 20fed o Ragfyr er mwyn gwylio perfformiad y disgyblion.
Pob lwc i griw Ysgol Treganna!!

## Dyddiadau tymor nesaf

Byddwn yn rhannu dyddiadau pwysig y tymor gyda chi ym mis Ionawr. Dyma gofnod o ddyddiadau tymor y gwanwyn a thymor yr haf.

**Dyddiadau ysgol y flwyddyn 2024-2025/ School term dates 2024-2025**

| | Cychwyn/ Start | Hanner tymor/ Half term | Gorffen/ End |
|---|---|---|---|
| Tymor yr Hydref/ Autumn term | Dydd Llun/ Monday 2/9/24 | 28/10/24- 1/11/24 | Dydd Gwener/ Friday 20/12/24 |
| Tymor y Gwanwyn/ Spring term | Dydd Llun/ Monday 6/1/25 | 24/2/25-28/2/25 | Dydd Gwener/ Friday 11/4/25 |
| Tymor yr haf/ Summer term | Dydd Llun/Monday 28/4/25 | 27/5/24-31/5/24 | Dydd Llun/ Monday 21/7/25 |

## Dyddiadau HMS

Dyma restr o ddyddiadau HMS 24/25.

| Diwrnodau HMS 2024-2025/ Inset days 2024-2025 |
|---|
| 2/9/24 |
| 3/9/24 |
| 25/10/24 |
| 6/1/25 |
| 23/5/25 |
| 21/7/25 |

## Ymgeisio am le yn y dosbarth Derbyn 2025

**Os ydych yn nosbarth Math/ Meithrin, cofiwch fod dal angen i chi ymgeisio am le yn y dosbarth Derbyn ar gyfer Medi 25.**

**Dyma'r linc ar gyfer ymgeisio am le:**
https://www.cardiff.gov.uk/CYM/preswylydd/Ysgolion-a-dysgu/Ysgolion/Gwneud-cais-am-le-mewn-ysgol/Ysgol-Gynradd/Pages/default.aspx

**Bydd angen ymgeisio am le cyn y 13eg o Ionawr.**

## Patrwm Iaith

**Ar ôl y gwyliau, dyma batrwm iaith yr wythnos**
Ydy hi'n (tywydd)?
Ydy, mae hi'n…
Nac ydy, mae hi'n…

**Her**
Prynhawn yma, rydw i'n meddwl bod hi'n mynd…
Mae'n debygol y bydd hi'n…

**Testun trafod yr wythnos**
Pe bawn i'n anweledig…

**Cân yr wythnos**
Rhys Gwynfor - Lwcus

**Idiom yr wythnos**
Oriau mân y bore